**Rhif:** WG32274

Llywodraeth Cymru

Dogfen ymgynghori

# Cynllun Gweithredu Drafft Cymru i Reoli'r Wiwer Lwyd

Dyddiad cyhoeddi: 20Tachwedd 2017
Camau i'w cymryd: Ymateb erbyn 21 Chwefror 2018

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r wiwer lwyd yn rhywogaeth estron oresgynnol sydd o bwys yng Nghymru, ac mae'n effeithio'n andwyol ar goetiroedd ac ar fioamrywiaeth ehangach. Diben yr ymgynghoriad hwn yw casglu barn ar gynllun gweithredu drafft Cymru i reoli'r wiwer lwyd. |
| **Sut i ymateb** | Dylech ymateb drwy lenwi'r holiadur ar-lein neu drwy ei anfon drwy'r e-bost at<br><br>ForestryPolicy@gov.wales<br><br>neu drwy'r post at<br><br>Y Gangen Polisi Adnoddau Coedwigaeth,<br>Rhodfa Padarn,<br>Llanbadarn Fawr,<br>Aberystwyth,<br>SY23 3UR |
| **Mwy o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gallwch ofyn i gael copi o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu iaith arall.**<br><br>Cynhaliwyd gweithdy cyn ymgynghori i randdeiliaid ar 6 Gorffennaf 2017, ac mae crynodeb o'r gweithdy hwnnw ar gael i gefnogi'r ymgynghoriad hwn – gweler tudalen we'r ymgynghoriad. |
| **Manylion cyswllt** | I gael mwy o wybodaeth:<br><br>Y Gangen Polisi Adnoddau Coedwigaeth,<br>Rhodfa Padarn,<br>Llanbadarn Fawr,<br>Aberystwyth,<br>SY23 3UR<br><br>e-bost: ForestryPolicy@gov.wales |
| **Diogelu data** | Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er |

mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Mae hynny’n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i’ch enw a’ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion.

Mae’n bosibl y bydd yr enwau a’r cyfeiriadau y byddwn wedi’u cuddio yn cael eu cyhoeddi’n ddiweddarach, er nad yw hynny’n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny’n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae’r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a’i gyfeiriad, bydd hynny’n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â’u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â’r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu’r wybodaeth.

## Crynodeb

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw casglu barn ar gynllun gweithredu drafft Cymru i reoli'r wiwer lwyd a luniwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gyda chymorth gweithgor o randdeiliaid.

Mae'r wiwer lwyd yn rhywogaeth estron oresgynnol o bwys sydd wedi lledaenu'n helaeth yng Nghymru, ac mae'n effeithio'n andwyol ar boblogaethau'r wiwer goch, ac ar goetiroedd a'r buddion sy'n gysylltiedig â nhw. O dan adran 14 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981), mae'n anghyfreithlon rhyddhau gwiwer lwyd i'r gwyllt neu ganiatáu iddi ddianc, hyd yn oed os cafodd ei chaethiwo am resymau lles.

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru, Coetiroedd i Gymru, yn amlinellu ymrwymiad i helpu i fynd i'r afael â bygythiadau rhywogaethau estron goresgynnol, gan gynnwys y wiwer lwyd, drwy ddull strategol wedi'i dargedu. Yn unol ag erthygl 19 o Reoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE[1], mae hefyd yn ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau roi mesurau rheoli effeithiol a chymesur ar waith i ddileu'r rhywogaethau a restrir, eu rheoli neu'u hatal rhag lledaenu. Mae'r wiwer lwyd wedi'i chynnwys ar y rhestr gyntaf o rywogaethau sy'n peri pryder i'r Undeb a ddaeth i rym ar 3 Awst 2016. Cyn pen deunaw mis, rhaid i'r Aelod-wladwriaethau roi mesurau rheoli ar waith.

Mae'r cynllun drafft yn dadlau'r achos dros lunio cynllun rheoli, gan amlinellu tystiolaeth o'r effaith y mae'r wiwer lwyd yn ei chael ar fioamrywiaeth, coetiroedd a newid hinsawdd. Mae'n cynnig dull strategol o reoli poblogaethau'r wiwer lwyd, ynghyd â'r cyfyngiadau a'r opsiynau rheoli – angheuol ac amgen – i wneud hynny. Mae hefyd yn nodi'r camau gweithredu drafft y byddai modd eu cyflawni drwy bartneriaeth rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol i hybu ac i gynorthwyo'r gwaith o reoli poblogaethau'r wiwer lwyd. **Nid** yw'n cynnig difa'r wiwer lwyd ledled Cymru na'i dileu o Gymru.

Ym mis Gorffennaf 2017, cynhaliwyd gweithdy i roi cyfle i randdeiliaid gyfrannu ymhellach at y gwaith o lunio'r cynllun drafft cyn yr ymgynghoriad hwn. Mae crynodeb o'r digwyddiad hwnnw ar gael ar dudalennau gwe'r ymgynghoriad.

Mae croeso i chi fynegi barn ar y cynllun gweithredu drafft i reoli'r wiwer lwyd. Cewch hyd i ffurflen ymateb ar dudalennau gwe'r ymgynghoriad.

---

[1] Erthygl 19 o Reoliad 1143/2014 yr UE ar Atal a Rheoli Cyflwyniad a Lledaeniad Rhywogaethau Estron Goresgynnol

## Cynnwys:


| | Tudalen |
|---|---|
| **Pennod 1: Cyflwyniad** | 7 |
| Pam fod angen cynllun gweithredu i reoli'r wiwer lwyd | 7 |
| Nodau ac amcanion | 9 |
| **Pennod 2: Strategaethau a pholisïau perthnasol eraill Llywodraeth Cymru** | 10 |
| **Pennod 3: Pam fod angen gweithredu** | 10 |
| Tystiolaeth o effaith y wiwer lwyd – bioamrywiaeth; coetiroedd cynhyrchiol, iechyd coed ac effeithiau economaidd eraill; newid hinsawdd | 10 |
| Goblygiadau gwneud dim | 14 |
| Cost a budd rheoli'r wiwer lwyd | 15 |
| **Pennod 4: Dull rheoli strategol** | 16 |
| Targedu adnoddau | 17 |
| Yr hyn sy'n cyfyngu ar y gwaith o reoli'r wiwer lwyd | 18 |
| Opsiynau rheoli ac arferion gorau – dulliau rheoli amgen ac angheuol | 20 |
| Ymchwil | 22 |
| **Pennod 5: Tabl o'r camau gweithredu a'r cyrff arweiniol** | 23 |
| **Pennod 6: Llywodraethu a monitro** | 25 |
| **Atodiad 1: Strategaethau a pholisïau perthnasol eraill Llywodraeth Cymru** | 27 |
| **Atodiad 2: Rheoli'r wiwer lwyd – cymorth yng Nghymru** | 32 |

# 1. Cyflwyniad

Pam fod angen Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd

Mae'r wiwer lwyd (*Sciurus carolinensis*) yn rhywogaeth estron oresgynnol a ledaenodd yn gyflym yng Nghymru ar ôl iddi gael ei chyflwyno i Brydain ar ddiwedd y 1800au. Mae'r wiwer lwyd yn drech na'r wiwer goch wrth gystadlu am fwyd, ac mae hefyd yn cario haint a elwir yn 'feirws brech y wiwer' sy'n lladd gwiwerod coch. Gall y wiwer lwyd effeithio'n sylweddol ar fioamrywiaeth ac ecosystemau coetiroedd hefyd, yn ogystal â difrodi coetir llydanddail a choetir conwydd. Amcangyfrifir bod y gwaith o reoli'r wiwer lwyd, a'r difrod y mae'n ei wneud i sector coedwigaeth Prydain, yn costio £6 miliwn y flwyddyn i'r economi, a £914,500 y flwyddyn yng Nghymru[2]. O gynnwys y costau i sectorau eraill, fel y sectorau adeiladu, datblygu a seilwaith, mae'r gost flynyddol yn cynyddu i £14 miliwn y flwyddyn i economi Prydain.

Mae amryw o weithgareddau'n mynd rhagddynt yng Nghymru ar hyn o bryd, o reoli'r wiwer lwyd er budd ardaloedd diogelu'r wiwer goch, i gydariannu ymchwil i ffyrdd o reoli'r wiwer lwyd a'i risgiau milheintiol i famaliaid brodorol. Fodd bynnag, o fynd ati i reoli'r wiwer lwyd mewn ffordd fwy cydgysylltiedig, byddai modd gwneud y gorau o adnoddau prin a rhoi ffocws i geisiadau am arian yn y dyfodol. Byddai dull o'r fath yn bodloni'r rhwymedigaethau a'r fframweithiau a ganlyn:-

- Strategaeth Coetiroedd i Gymru Llywodraeth Cymru
- Rheoliadau Rhywogaethau Estron Goresgynnol
- Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru
- Cytundeb Gwiwerod y DU

Strategaeth 50 mlynedd ar gyfer coetiroedd a choed yw *Strategaeth Coetiroedd i Gymru Llywodraeth Cymru* (y Strategaeth), ac fe'i hategir gan gynllun gweithredu. Mae'r Strategaeth yn amlinellu nifer o ymrwymiadau sy'n cynnwys creu coetiroedd brodorol / cymysg newydd, hybu'r gwaith o reoli coetiroedd ac adfer cynefinoedd, a gwella'r cysylltiadau rhwng coetiroedd. Nod gweithgareddau o'r fath yw gwella iechyd, cydnerthedd ac ansawdd amgylcheddol coetiroedd Cymru a'r gwasanaethau ecosystemau a ddarperir ganddynt. Fodd bynnag, mae coetiroedd yn agored i niwed gan y wiwer lwyd sy'n bygwth goroesiad coed ac ansawdd pren, a gall hyn effeithio ar fioamrywiaeth ac ar gydnerthedd coetiroedd. Bydd yn anoddach cyflawni llawer o amcanion y Strategaeth oni bai fod effeithiau negyddol y wiwer lwyd yn cael sylw priodol.

Pan oedd y Strategaeth yn cael ei llunio, nodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ei chylch ei bod yn hanfodol rheoli'r wiwer lwyd i gyflawni nifer o bolisïau'r Strategaeth. Ynddi, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu dull strategol wedi'i dargedu i helpu i fynd i'r afael â'r bygythiadau gan rywogaethau estron goresgynnol, gan gynnwys y wiwer lwyd. Mae'r Cynllun Gweithredu drafft hwn yn ceisio bodloni'r ymrwymiad hwnnw.

[2] CABI - Williams et al (2010) – Economic cost of Invasive Non-native species on Great Britain

Daeth *Rheoliad yr UE Rhif 1143/2014 ar Atal a Rheoli Cyflwyniad a Lledaeniad Rhywogaethau Estron Goresgynnol*[3] (y Rheoliad) i rym ar 1 Ionawr 2015. Yn unol â'r Rheoliad, mae'n ofynnol llunio rhestr o'r rhywogaethau estron goresgynnol sy'n peri pryder i'r Undeb, ac mae'n ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau roi mesurau rheoli ar waith i ddileu'r rhywogaethau a restrir, eu rheoli neu'u hatal rhag lledaenu. Rhaid i fesurau rheoli o'r fath fod yn gymesur â'r effaith ar yr amgylchedd ac yn briodol o ran amgylchiadau penodol yr Aelod-wladwriaeth o dan sylw. Mae'r wiwer lwyd ar y rhestr gyntaf o rywogaethau sy'n peri pryder i'r Undeb a ddaeth i rym ar 3 Awst 2016.

Cyn pen deunaw mis, rhaid i Aelod-wladwriaethau, fel y DU, roi mesurau rheoli effeithiol a chymesur ar waith ar gyfer y rhywogaethau a restrir, gan gynnwys y wiwer lwyd. Dylai'r mesurau fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r costau a'r buddion, a dylid eu blaenoriaethu ar sail gwerthusiad risg a'u heffeithiolrwydd o ran cost. Mae hefyd yn ofynnol monitro effeithiolrwydd y mesurau a roddir ar waith. Nid yw'n debygol y bydd trafodaethau Brexit yn effeithio ar y gofyniad hwn; felly, mae'r Cynllun Gweithredu drafft hwn yn mynd i'r afael â gofynion y Rheoliad yng Nghymru.

Mae *Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru* eisoes ar waith. Fe'i paratowyd yn 2009 gan Fforwm Gwiwerod Cymru, gan ymgynghori â Phartneriaeth Gwiwerod Cymru, i ddarparu fframwaith i warchod ac i adfer y wiwer goch yng Nghymru. Mae'n cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd. Mae'n darparu sylfaen i weithredu yng Nghymru i warchod ac i wella tri phrif safle'r wiwer goch – Ynys Môn, Clocaenog a'r Canolbarth – ac i gynnal poblogaethau'r wiwer goch sy'n bridio. Mae'r cynllun i ddiogelu'r wiwer goch yn cynnwys rhai camau i reoli'r wiwer lwyd ar y prif safleoedd ac mewn ardaloedd clustogi cyfagos, a hynny oherwydd effaith y gystadleuaeth am fwyd a feirws brech y wiwer ar boblogaethau'r wiwer goch.

Mae'r Cynllun Gweithredu drafft hwn yn cynnwys cylch gwaith ehangach sy'n cydnabod effaith y wiwer lwyd ar goetir fel cynefin ac fel adnodd naturiol, yn ogystal â bodloni ymrwymiadau Llywodraeth Cymru o dan y Rheoliad, fel y nodir uchod. Bydd y gwaith a wneir o dan y cynllun gweithredu hwn yn cyfrannu at y camau i roi fersiwn ddiwygiedig Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru ar waith, a'r gwrthwyneb. Fodd bynnag, mae'r ddau gynllun yn dal i fod ar wahân gan fod ystod eang o broblemau'n gysylltiedig â'r wiwer lwyd.

Mae *Cytundeb Gwiwerod y DU* yn dod â llu o sefydliadau sydd â diddordeb mewn materion sy'n ymwneud â'r wiwer lwyd a'r wiwer goch ynghyd o dan un nod cyffredin. Mae'r Cytundeb yn adeiladu ar y gwaith sy'n digwydd ar lefel genedlaethol drwy weithio ar draws ffiniau i roi ffocws ar gyfer cydweithio ar lefel y DU. Gweledigaeth y Cytundeb yn y tymor hir yw sicrhau:-

- Bod poblogaethau'r wiwer goch frodorol yn ddiogel a'u bod wedi ehangu tu hwnt i'w cadarnleoedd presennol
- Bod ein coetiroedd yn ffynnu a'u bod yn gallu parhau i ddarparu amryw o fuddion i genedlaethau'r dyfodol.

---

[3] Mae'r term 'rhywogaeth estron oresgynnol' yn cyfateb i'r term 'rhywogaeth estron' a ddefnyddir gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol ac fe'i diffinnir yn fras fel rhywogaeth y mae ei chyflwyniad a/neu ei lledaeniad yn bygwth amrywiaeth fiolegol neu'n cael effeithiau eraill na chawsant eu rhagweld.

Mae'r 32 corff sydd wedi llofnodi'r Cytundeb hwn, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, yn cydnabod pwysigrwydd y gwaith hwn ac yn cefnogi'r nod hirdymor a ganlyn: poblogaethau'r wiwer goch yn cael eu diogelu ac yn ffynnu a phoblogaethau'r wiwer lwyd yn cael eu rheoli drwy gamau parhaus wedi'u targedu. Mae hefyd yn cydnabod bod rhaid gwneud hyn drwy bartneriaeth eang a dynamig rhwng y llywodraeth, y sector preifat a'r sector gwirfoddol. Mae'r Cynllun Gweithredu drafft i Reoli'r Wiwer Lwyd yn amlinellu'r camau a gymerir yng Nghymru i gyfrannu at nod y Cytundeb ac mae'n cydnabod y bydd angen gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r camau rheoli.

Cynllun Gweithredu Cymru i Reoli'r Wiwer Lwyd

Nod

Nod y cynllun gweithredu drafft hwn yw datblygu dull mwy integredig ac effeithiol o reoli'r wiwer lwyd yng Nghymru, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau i reoli poblogaethau'r wiwer lwyd, a bodloni ein rhwymedigaethau o dan y Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys amcanion a chamau gweithredu i osod sylfaen ar gyfer Cynllun Gweithredu Cymru i Reoli'r Wiwer Lwyd.

Amcanion

Mae'n bwysig gwella iechyd a chydnerthedd adnoddau coetir Cymru a'u buddion i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Rydym yn gwybod bod y wiwer lwyd yn effeithio'n andwyol ar fuddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol coetiroedd a choed.

Amcan y cynllun gweithredu drafft hwn yw rheoli poblogaethau'r wiwer lwyd er mwyn:-

- Lleihau'r effaith ar boblogaethau'r wiwer goch
- Lleihau'r effaith ar ecosystemau coetiroedd a choed a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt, gan gynnwys cynhyrchu pren.

Mae'r cynllun gweithredu drafft hwn i reoli'r wiwer lwyd yn llwyr gefnogi Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru. Yn 2017, diweddarwyd amcanion y cynllun hwnnw, sef cynnal a chynyddu dosbarthiad y wiwer goch ar brif safleoedd Cymru, a chynnal a chynyddu maint poblogaeth y wiwer goch ar y prif safleoedd i sicrhau bod y poblogaethau'n gadarn ac yn gydnerth. Mae'n bwysig bod cynlluniau'r wiwer goch a'r wiwer lwyd yn ategu ei gilydd er mwyn cael cymaint o fudd â phosibl o'r gwaith i ddiogelu'r wiwer goch a hybu'r arferion gorau o ran rheoli'r wiwer lwyd.

**Nid** yw'r cynllun gweithredu drafft hwn yn bwriadu *dileu'r* wiwer lwyd o Gymru. Nid yw hyn yn ymarferol nac yn fforddiadwy o ystyried maint poblogaeth y wiwer lwyd. Yn unol â'r Rheoliad, caniateir rheoli rhywogaethau estron goresgynnol yn hytrach na'u dileu os yw rhywogaethau o'r fath eisoes wedi ennill eu plwyf dros ardal eang. Mae'r cynllun gweithredu drafft hwn yn ceisio hybu camau i reoli poblogaethau'r wiwer lwyd lle bo hynny'n ymarferol a lle ceir y budd mwyaf.

## 2. Strategaethau a pholisïau perthnasol eraill Llywodraeth Cymru

Yn ychwanegol at y prif ymrwymiadau a amlinellwyd eisoes, cafodd nifer o strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru, a'i deddfwriaeth ehangach, eu hadolygu wrth baratoi'r cynllun gweithredu drafft hwn. Yn eu plith roedd:-

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r Polisi Adnoddau Naturiol
- Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd (2010)
- Cynllun Adfer Natur Cymru 2015
- Cynllun Cadwraeth Natura 2000 ar ôl LIFE a Fframwaith Gweithredu Blaenoriaethau Cymru
- Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr
- Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
- Deddf Coedwigaeth 1967

Yn Atodiad 1, nodir sut y mae'r cynllun gweithredu drafft hwn yn cydweddu â'r rhain a sut y bydd yn cyfrannu at y camau i'w rhoi ar waith.

## 3. Pam fod angen gweithredu

**Tystiolaeth o effaith y wiwer lwyd**

Mae'r wiwer lwyd wedi cael effaith andwyol sylweddol ar fioamrywiaeth a'r diwydiant coedwigaeth, gan fygwth amaethyddiaeth a'r amgylchedd trefol hefyd. Mae i'r effeithiau hyn ganlyniadau economaidd sylweddol oherwydd y difrod a wneir a'r refeniw uniongyrchol a gollir, yn ogystal â'r gost o reoli'r wiwer lwyd.

Yn y dadansoddiad a wnaed wrth baratoi rhestr o'r rhywogaethau sy'n peri pryder i'r Undeb, roedd yr asesiad o risg y wiwer lwyd yn tynnu sylw at ei natur oresgynnol, ei heffaith ar yr economi, a'r modd y mae'n disodli'r wiwer goch frodorol, gan beri diflaniad y wiwer goch ar raddfa eang. Roedd hefyd yn nodi bod perygl y gallai'r wiwer lwyd, o gael ei chyflwyno, ledaenu ar draws Ewrop, a hynny oherwydd bod cynefinoedd addas ar gael ar ei chyfer, oherwydd yr amodau hinsoddol ac oherwydd ei natur oresgynnol. Er bod y wiwer lwyd yn bresennol ym Mhrydain Fawr ac Iwerddon, y posibilrwydd y gallai ei dosbarthiad ehangu o'r Eidal ac y gallai gwiwerod ddianc o'r fasnach mewn anifeiliaid anwes yw'r brif risg i weddill Ewrop.

Nid oes amcangyfrifon manwl gywir ar gael o faint poblogaeth y wiwer lwyd yn y DU: yn 2010, cynigiodd nifer o ffynonellau ffigur o 2-3.3 miliwn[4]. Mae'r wiwer lwyd wedi'i dosbarthu'n eang ar draws Cymru, ac eithrio dau o brif safleoedd y wiwer goch lle mae'r wiwer lwyd yn cael ei rheoli i ddiogelu poblogaethau'r wiwer goch, ac Ynys Môn lle cafodd y wiwer lwyd ei dileu.

---

[4] CABI - Williams et al (2010) – Economic cost of Invasive Non-native species on Great Britain

Mae coetiroedd yn darparu amryw o fuddion ecosystemau. Gall fod yn anodd rhoi gwerth ar y buddion hyn, ond bu i adroddiad diweddar[5] amcangyfrif mai gwerth blynyddol y gwasanaethau ecosystemau a ddarperir gan goetiroedd Cymru, ar sail prisiau 2015, oedd £108 miliwn ar gyfer dal a storio carbon, £28.3 miliwn ar gyfer torri a thrin coed, £85 miliwn ar gyfer hamdden a £385 miliwn ar gyfer gwasanaethau ansawdd aer. Er bod cysylltiad rhwng presenoldeb y wiwer lwyd a dirywiad poblogaethau'r wiwer goch neu'r gostyngiad yng ngwerth pren, mae'n cael effaith llawer ehangach ar yr amgylchedd:-

Bioamrywiaeth

Oherwydd presenoldeb y wiwer lwyd, mae'r wiwer goch wedi diflannu o rannau helaeth o'i hardaloedd naturiol ledled y DU, a hynny oherwydd cystadleuaeth uniongyrchol am fwyd ac ymlediad feirws brech y wiwer. Yng Nghymru, mae'r wiwer goch wedi'i chyfyngu i dair prif ardal: Ynys Môn, lle mae'r wiwer goch yn ymsefydlu mewn ardaloedd cyfagos yng Ngwynedd erbyn hyn hefyd, coedwig Clocaenog yn y Gogledd-ddwyrain, a'r rhwydwaith o fforestydd conwydd yn nyffryn Tywi yn y Canolbarth. Oni bai am ymdrechion prosiectau gwiwerod coch lleol i reoli'r wiwer lwyd, mae'n debygol y byddai'r wiwer goch yn agos at ddiflannu o Gymru.[6] Mae fersiwn ddiwygiedig Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru yn rhoi sylw i hyn, gan ganolbwyntio ar reoli'r wiwer lwyd yn y tair prif ardal hyn a'r ardaloedd clustogi o'u hamgylch.

Rydym yn gwybod bod y wiwer lwyd yn bwyta wyau adar a chywion, ac er nad oes llawer o dystiolaeth bod y wiwer lwyd yn cyfyngu ar boblogaethau adar, ceir tystiolaeth bod cysylltiad posibl rhyngddi a methiant nythod rhywogaethau penodol[7]. Cafodd y wiwer lwyd hefyd ei chysylltu â dirywiad lleol poblogaethau'r pathew oherwydd eu bod yn cystadlu am gnau cyll, ond nid oes digon o ddata ar gael ar hyn o bryd i ategu'r farn hon.

Gall dwysedd poblogaeth y wiwer lwyd fod bedair gwaith yn uwch na phoblogaeth y wiwer goch mewn rhai coetiroedd llydanddail a chymysg[8]. Mae'n effeithio ar rai o safleoedd coetir pwysicaf Cymru, a nodwyd ei bod yn broblem reoli ar wyth Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), gan gynnwys tair Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)[9]. Nodwyd bod y wiwer lwyd yn broblem mewn 16 o unedau rheoli SoDdGA, a'i bod yn effeithio, er enghraifft, ar oroesiad coed derw ifanc. Mae'n debygol y gallai'r cyfanswm fod yn llawer mwy oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o'r difrod a wneir gan y wiwer lwyd a'r ffaith bod rhai rheolwyr cadwraeth yn priodoli'r difrod i geirw sy'n pori. I'r perwyl hwn, mae i ddifrod gan y wiwer lwyd oblygiadau o

[5] Forest Research – Saraev et al (2017) – Valuation of Welsh Forest Resources
[6] Haliwell et al (2015) Striving for success: an evaluation of local action to conserve red squirrels (*Sciurus vulgaris*) in Wales. Yn: Shuttleworth CM, Lurz PWW, Hayward M (gol) *Red Squirrels: Ecology, Conservation & Management in Europe*, 175-192. Menter Gwiwerod Ewrop, Woodbridge, Suffolk, Lloegr
[7] Gurnell J, Lurz PWW, Shuttleworth CM (2016). Ecosystem impacts of an alien invader in Europe, the squirrel *Sciurus carolinensis*. Yn: *The grey squirrel Ecology & Management of an invasive species in Europe*, 307-326. Menter Gwiwerod Ewrop.
[8] Gurnell J, Lurz PWW, Shuttleworth CM (2016). Ecosystem impacts of an alien invader in Europe, the squirrel *Sciurus carolinensis*. Yn: *The grey squirrel Ecology & Management of an invasive species in Europe*. 307-326. Menter Gwiwerod Ewrop.
[9] Cronfa Ddata Camau Gweithredu Safleoedd Arbennig Cyfoeth Naturiol Cymru

ran adfywiad a chynaliadwyedd ehangach cynefinoedd coetir, yn ogystal â'r planhigion a'r anifeiliaid sy'n gysylltiedig â nhw.[10]

Coetiroedd cynhyrchiol, iechyd coed ac effeithiau economaidd eraill

Mae effaith difrod gan y wiwer lwyd ar dwf a gwerth pren cynhyrchiol yn dibynnu ar y rhywogaeth yr effeithir arni, ac ar faint a lleoliad y difrod ar y goeden. Gall rhisglo achosi caledennau o amgylch clwyfau a galluogi heintiau ffwngaidd i dreiddio i'r goeden, gan beri iddi farw, staenio'r pren neu achosi pydredd. Fodd bynnag, nid oes fawr ddim tystiolaeth sy'n awgrymu bod unrhyw gysylltiad rhwng difrod gan y wiwer lwyd a *Phytophthora ramorum* (marwolaeth sydyn y deri)[11]. Gall difrod cylchrisglo arwain at farwolaeth coeden, colli canopi, anffurfio neu dorri coesynnau. Yn ogystal â pheri i goeden gyfan neu ran o goeden farw, mae'r difrod yn aml yn arwain at ddiraddio neu leihau gwerth coeden aeddfed e.e. o bren amlbwrpas uchel ei werth i goed tân isel eu gwerth. O golli 30% o'r canopi yn sgil rhisglo, gall effeithio ar gyfradd twf coed ac ar faint y cnwd pren a biomas.[12]

Ymhlith y rhywogaethau sy'n agored i niwed mae'r dderwen, y sycamorwydden, y ffawydden a'r gastanwydden, yn ogystal â rhywogaethau conwydd gan gynnwys y binwydden, y llarwydden a sbriwsen Norwy. Cafwyd adroddiadau o ddifrod i goed bedw a sbriws Sitka hefyd. Cafodd coed ynn eu plannu yn lle'r rhywogaethau hyn oherwydd eu bod yn gymharol abl i wrthsefyll difrod gan wiwerod, ond nid ydynt yn cael eu plannu yng Nghymru mwyach oherwydd clefyd (Chalara) coed ynn[13]. Mae hyn yn lleihau ymhellach yr opsiynau sydd ar gael i berchnogion coetiroedd sy'n ystyried plannu coetiroedd llydanddail.

Yn 2000, amcangyfrifwyd bod difrod gan y wiwer lwyd yn costio oddeutu £10 miliwn i ddiwydiant pren y DU, a hynny ar *ddiwedd* cylchdro cyfredol y cnwd sycamor, ffawydd a derw byw ar y pryd. Mewn adroddiad gan CABI[14] yn 2010, amcangyfrifwyd bod y wiwer lwyd yn costio cyfanswm o £14 miliwn *y flwyddyn* i economi Prydain. Roedd y ffigur hwn yn cynnwys costau'r gwaith o reoli'r wiwer lwyd a'r difrod y mae'n ei wneud i'r sectorau adeiladu, datblygu a seilwaith. Amcangyfrifwyd ei bod yn costio £914,500 *y flwyddyn* i sector coedwigaeth Cymru. Gan fod y ffigur hwn yn cynnwys costau rheoli gan ddefnyddio warffarin, a bod hwnnw wedi'i dynnu oddi ar y farchnad ers hynny, mae'n debygol bod y gost i'r diwydiant coedwigaeth yn uwch erbyn hyn gan fod trapio'n costio mwy.

Mae tystiolaeth anecdotaidd ddiweddar o'r sector preifat[15] yn awgrymu bod coetiroedd ifanc yn cael eu difrodi'n ddifrifol, gan amrywio o 20-100% yn dibynnu ar yr oedran a'r rhywogaeth, a bod coed llydanddail yn cael eu taro'n arbennig o wael. Gall hyn arwain at gostau ychwanegol o ran plannu coed newydd, neu'r posibilrwydd

---

[10] Mayle et al (2007) Controlling grey squirrel damage in woodlands, Nodyn ymarfer y Comsiwn Coedwigaeth
[11] Gwefan Forest Research – Are grey squirrels implicated in spreading P.ramorum? – diweddariad diwethaf 2012
[12] Mayle a Broome (2013) Changes in the impact and control of an invasive alien: the grey squirrel in Great Britain, as determined from regional surveys. *Pest Management Science* 69: 414-424.
[13] Gwywiad Coed Ynn (clefyd Chalara) – Ymateb Cymru (2016), Llywodraeth Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru
[14] CABI - Williams et al (2010) – Economic cost of Invasive Non-native species on Great Britain
[15] Confor – crynodeb o dystiolaeth yr aelodau (2016)

o golli arian grant oherwydd bod cnwd wedi methu. Mewn achosion eithafol, bu'n rhaid cwympo ac ailblannu coedlannau cyfan oherwydd bod cymaint o ddifrod fel nad oedd modd cynnal na chynyddu gwerth cynhyrchiol y coed. Gall lefelau uwch o ddifrod fod yn fwy derbyniol mewn coetiroedd llydanddail a dyfir am resymau amwynder neu fioamrywiaeth lle na ellir cyfiawnhau'r gost o reoli'r wiwer lwyd.

Gall y gostyngiad yng ngwerth economaidd y coetiroedd yr effeithir arnynt atal perchnogion rhag mynd ati i reoli ac i greu coetiroedd. Mae tystiolaeth yn dangos y gall teneuo coed llydanddail i leihau cystadleuaeth ac i alluogi'r coed i dyfu gynyddu'r risg y bydd y coed sy'n weddill yn cael eu difrodi gan y wiwer lwyd.[16] Felly, mae tyfu coed i gynhyrchu pren o safon yn galw am fwy o ymrwymiad i reoli'r wiwer lwyd. Mae ystadegau coedwigaeth yn dangos bod y pren caled a gynhyrchir wedi gostwng 50% dros y deugain mlynedd diwethaf, o 48,000 i 23,000 tunnell werdd yng Nghymru[17]. Gall y cynnydd yn y galw am goed tân o werth is helpu i sbarduno rhywfaint o waith i reoli coetiroedd, ond mae'n amlwg bod y duedd o ran rheoli coetiroedd llydanddail i gynhyrchu pren o safon ar i lawr. Gan fod y difrod y mae'r wiwer lwyd yn ei wneud yn effeithio ar gynhyrchu pren o safon, mae'r DU yn dibynnu mwy ar fewnforio pren, ac roedd hyn yn cyfrif am 82% o'r holl bren (a gynhyrchwyd ac a fewnforiwyd) yn 2015[18]. O gynhyrchu mwy o bren o safon yng Nghymru, byddai'n cefnogi'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn cyfrannu at y nod llesiant, "Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang", o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Ymhlith costau llai amlwg y wiwer lwyd i'r economi mae difrod i wifrau a deunydd inswleiddio atigau. Amcangyfrifwyd bod difrod o'r fath, a'r costau rheoli cysylltiedig, yn costio oddeutu £427,000 y flwyddyn i Gymru[19]. Ystyriaeth arall yw'r risg iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â choed sydd wedi'u difrodi, ynghyd â'r gost sy'n gysylltiedig â gwasanaethau coedyddiaeth.

## Newid hinsawdd

O gynhyrchu pren o safon i'w ddefnyddio mewn cynnyrch hirdymor, mae'n sicrhau bod y carbon sy'n cael ei ddal gan y coed wrth iddynt dyfu'n cael ei storio, a hynny'n aml am gyfnodau hir. Mae cynnyrch o'r fath yn aml yn addas i'w ailddefnyddio fel pren wedi'i adfer, gan sicrhau bod y carbon yn cael ei storio am yn hirach. Gellir ailddefnyddio pren caled o ansawdd da lawer gwaith cyn bod angen cael gwared arno. Mae difrod gan wiwerod yn atal coed llydanddail rhag tyfu i fod o faint neu o ansawdd lle maent yn ddefnyddiol at ddibenion mwy hirdymor, fel adeiladu. Er bod rhywogaethau conwydd yn llai tueddol o gael eu difrodi, mae'n debygol bod polisïau sy'n annog amrywiaeth o rywogaethau, drwy blannu coed llydanddail ar safleoedd conwydd, wedi peri i'r planhigfeydd hyn fod yn fwy atyniadol i'r wiwer lwyd, ac mae'r adroddiadau cynyddol am ddifrod i goed conwydd yn adlewyrchu hyn.[20] Yn aml, mae

---

[16] Mayle et al (2009) - Influence of tree size and dominance on incidence of bark stripping by grey squirrels to oak and impact on tree growth. Forestry, Cyfrol 82

[17] Ystadegau'r Comisiwn Coedwigaeth – cynhyrchu a masnachu pren (2016)

[18] Ystadegau'r Comisiwn Coedwigaeth – masnach (2016)

[19] Williams et al (2010) *Economic cost of Invasive Non-native species on Great Britain – Final Report*. Canolfan Amaethyddiaeth a Biowyddoniaeth Rhyngwladol (CABI), Wallingford, y DU.

[20] Mayle a Broome (2013) – Changes in the impact and control of an invasive alien: the grey squirrel in Great Britain, as determined from regional surveys

coed sydd wedi'u difrodi yn cael eu heintio gan ffwng sy'n gwanhau ac yn staenio'r pren gan beri iddo fod yn addas ar gyfer tanwydd yn unig, a lleihau'r cyfleoedd i storio carbon am gyfnod hir. Mae hyn yn tanseilio'r potensial i ddefnyddio pren sy'n storio carbon yn lle deunyddiau adeiladu sy'n drwm ar ynni. Mae'r effaith ddeuol y mae'r wiwer lwyd yn ei chael, o ran marwolaeth coed a lleihau'r cyfraddau twf, hefyd yn lleihau gallu cyffredinol coetiroedd i gloi carbon. Felly, gall effeithio'n anuniongyrchol ar gyfraniad coetiroedd at liniaru newid hinsawdd.

Canfuwyd hefyd fod difrod gan y wiwer lwyd yn cyfrannu at newid y rhywogaethau o goed a geir mewn coetiroedd oherwydd ei bod yn effeithio ar aildyfiant naturiol ac ar rywogaethau coed sy'n agored i niwed. Gall hyn arwain at lai o amrywiaeth o rywogaethau ac oedran, ac mae i hyn oblygiadau o ran cydnerthedd cynefinoedd coetir yn wyneb newid hinsawdd. Mae'n debygol y bydd y gaeafau mwynach a ragwelir yn sgil newid hinsawdd yn ffafrio goroesiad y wiwer lwyd, ac felly bydd y difrod i goed yn cynyddu yn y dyfodol. Ochr yn ochr â chynnydd mewn plâu a chlefydau yn sgil newid hinsawdd, mae'n debygol y bydd y pwysau ar iechyd coed yn cynyddu. Felly, mae'r posibilrwydd o ddifrod gan y wiwer lwyd yn rhwystr rhag mynd ati i ddiogelu coedwigoedd at y dyfodol drwy ddefnyddio rhywogaethau coed newydd a allai wrthsefyll y plâu a'r clefydau coed sy'n dod i'r amlwg neu fod yn fwy addas ar gyfer y newid hinsawdd a ragwelir.[21]

### Goblygiadau gwneud dim – crynodeb

Mae poblogaethau'r wiwer lwyd yn debygol o gynyddu yn sgil gaeafau mwynach a'r camau i ehangu cynefinoedd llydanddail sy'n ffafriol iddi.[22] Rhestrir yr effeithiau uchod. Isod, rhestrir goblygiadau gwneud dim:-

- Y wiwer goch – mae'n debygol y bydd poblogaethau'r wiwer goch yn diflannu os na fydd y rhaglenni presennol i reoli'r wiwer lwyd yn parhau. Caiff hyn ei gydnabod yn fersiwn ddiwygiedig Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru. Mae'r cynllun gweithredu drafft hwn yn ceisio ategu'r gwaith a wnaed hyd yma i reoli'r wiwer lwyd, ac adeiladu ar y gwaith hwnnw.

- Safleoedd dynodedig – bydd difrod gan y wiwer lwyd yn parhau i effeithio ar gyflwr cynefinoedd coetir a bioamrywiaeth y cynefinoedd hynny. Gallai hyn danseilio'r camau i gyflawni Cynllun Adfer Natur Cymru, Cynllun Cadwraeth Natura 2000 ar ôl LIFE, a Fframwaith Gweithredu Blaenoriaethau Cymru, a gallai arwain at gosbau gan yr Undeb Ewropeaidd.

- Strategaeth Coetiroedd i Gymru – mae'n cyfrannu at nifer o strategaethau a pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Polisi Adnoddau Naturiol. Mae'r wiwer lwyd yn effeithio ar y gwaith o gyflawni nifer o ganlyniadau themâu strategol Strategaeth Coetiroedd i Gymru, a bydd hyn yn ei dro yn effeithio ar gyfraniad coetiroedd at bolisïau ehangach Llywodraeth Cymru:-

[21] Shuttleworth et al. (2012). Integrating red squirrel (*Sciurus vulgaris*) habitat requirements with the management of pathogenic tree disease in commercial forests in the UK. Forest Ecology and Management 279: 167-175.
[22] Datganiad i'r Wasg Mawrth 16 – Grey squirrel numbers to increase – Menter Gwiwerod Ewrop

- Coetiroedd a choed Cymru – Gall yr effaith ar oroesiad coed, diffyg twf, ansawdd pren a'r defnydd a wneir ohono yn y pen draw atal perchnogion rhag rheoli coetiroedd neu blannu coetiroedd newydd. Gall leihau'r dewis o rywogaethau coed amgen yn wyneb plâu a chlefydau newydd, a gall hyn effeithio ar gydnerthedd coetiroedd[23].
- Ymateb i'r newid yn yr hinsawdd – Mae difrod yn effeithio ar swm y carbon sy'n cael ei ddal gan goetiroedd newydd a choetiroedd sy'n bodoli eisoes, ynghyd â'r posibilrwydd o'u defnyddio yn lle deunyddiau anadnewyddadwy e.e. ym maes adeiladu.
- Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig – Mae difrod yn effeithio ar y gwaith o gynhyrchu pren amlbwrpas a defnyddiadwy i'w brosesu, ac mae'n lleihau'r posibilrwydd y gall Cymru fanteisio ar y galw am bren cynhenid, gan leihau'r cyfleoedd sydd ar gael i fusnesau prosesu pren a lleihau nifer y swyddi cysylltiedig.
- Ansawdd yr amgylchedd – Gall y wiwer lwyd effeithio ar gyfansoddiad ac ansawdd safleoedd dynodedig, coetiroedd hynafol, cynefinoedd coetir brodorol a phlanhigfeydd eraill. Bydd coetiroedd yn darparu llai o fuddion e.e. amddiffyn pridd a dŵr.

**Cost a budd rheoli'r wiwer lwyd**

*Cynhyrchu pren* – Ni cheir fawr ddim data sy'n pennu'r pwynt lle mae'n gosteffeithiol rheoli'r wiwer lwyd o'i gymharu â gwerth y pren ar y farchnad. Mae'n anodd pennu'r pwynt hwn gan fod cnwd terfynol coeden yn cael ei amcangyfrif yn ystod y cyfnod pan mae'n agored i niwed, o leiaf 50 mlynedd cyn ei chynaeafu.[24] Mae llawer o newidynnau'n effeithio ar hyn, gan gynnwys amcanion y perchennog, y rhywogaeth, amodau'r safle, y gyfradd twf, y farchnad, maint poblogaeth y wiwer lwyd, a'r difrod a wneir ganddi. Gall effaith economaidd bosibl difrod gan y wiwer lwyd ddylanwadu ar y rhywogaethau sy'n cael eu plannu.

Ers tynnu'r gwenwyn warffarin oddi ar y farchnad, trapio gwiwerod llwyd a'u lladd heb greulondeb yw'r prif ddull o'u rheoli. Fodd bynnag, mae'r costau llafur sydd ynghlwm wrth gynnal trapiau o'r fath dros y cyfnod prysur rhwng diwedd mis Ebrill a diwedd mis Gorffennaf yn golygu bod y costau wedi cynyddu'n sylweddol. Mae tystiolaeth anecdotaidd o'r sector preifat yn dangos bod y costau'n amrywio o £21 - £71 yr hectar y flwyddyn, gan ddibynnu ar y dull a ddewisir, y pellteroedd a deithir, a pha mor hygyrch yw'r coetir.

O gynllunio'r dull o reoli'r wiwer lwyd yn dda a'i ddefnyddio'n barhaus, gall wneud gwahaniaeth. Mae asesiadau blynyddol y Comisiwn Coedwigaeth o'r difrod a wnaed gan wiwerod mewn coetiroedd yn ne Lloegr yn dangos bod y difrod wedi gostwng o

---

[23] Shuttleworth et al. (2012). Integrating red squirrel (*Sciurus vulgaris*) habitat requirements with the management of pathogenic tree disease in commercial forests in the UK. Forest Ecology and Management 279: 167-175.
[24] Mayle a Broome (2013) – Changes in the impact and control of an invasive alien: the grey squirrel in Great Britain, as determined from regional surveys.

50% i 8% ar ôl ymgymryd â gwaith rheoli blynyddol am 11 mlynedd[25]. Fodd bynnag, gan fod llawer o rywogaethau o goed llydanddail yn agored i niwed pan fyddant rhwng 10-40 oed, mae rheoli'r wiwer lwyd er mwyn cynhyrchu pren o safon yn gofyn am ymrwymiad sylweddol gan y perchennog. Os bydd y poblogaethau'n cynyddu eto neu os bydd y gwaith rheoli'n methu mewn blwyddyn benodol, gall danseilio'r buddsoddiad a wnaed. O ystyried dosbarthiad daearyddol y wiwer lwyd a'i gallu i symud, ni all llawer o dirfeddianwyr gyfiawnhau'r gost.

*Bioamrywiaeth* – Mae hefyd yn anodd mesur cost a budd y gwaith o reoli'r wiwer lwyd am resymau bioamrywiaeth, fel diogelu'r wiwer goch neu leihau'r difrod i gynefinoedd coetir dynodedig. Amcangyfrifir iddi gostio ychydig dros £1 miliwn i ddileu'r wiwer lwyd o Ynys Môn rhwng 1998 a 2015[26] . Mae Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru yn amcangyfrif bod tua £14,000 wedi'i wario i reoli'r wiwer lwyd yn 2015-16. Amser gwirfoddolwyr sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r gost honno, ac fe'i hamcangyfrifir ar sail tua hanner y gost llafur/awr ar ystadau preifat.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gwario rhwng £20 – 30,000 y flwyddyn ar reoli'r wiwer lwyd er mwyn diogelu'r wiwer goch ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn amrywio gan ddibynnu ar y cyllid sydd ar gael ac mae'n ategu prosiectau eraill, fel Gwiwerod Coch Unedig[27] a phrosiect Green Shoots BASC[28]. Lle bynnag y bo modd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn ymgymryd â gwaith cadwraeth sensitif ar dri phrif safle'r wiwer goch (y Canolbarth, Clocaenog ac Ynys Môn) er lles cynefinoedd y wiwer goch. Gall camau mwy hirdymor, fel cadw coed y gellir eu cynaeafu, cynnal y cysylltiadau rhwng coetiroedd, ac ailstocio coetiroedd â rhywogaethau llai cynhyrchiol i greu cynefinoedd mwy amrywiol, ychwanegu at y gost.

Dylid nodi bod hyd a lled y gwaith o reoli'r wiwer lwyd, boed gan grwpiau gwirfoddol neu dirfeddianwyr preifat neu gyhoeddus, yn dibynnu ar y cyllid a'r adnoddau sydd ar gael. Yn aml, gall hyn gyfyngu ar yr hyn y gellir ei gyflawni, boed o ran diogelu'r wiwer goch, adfer cynefinoedd neu amddiffyn cnydau pren.

## 4. Dull rheoli strategol

O dan adran 14 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae'n anghyfreithlon rhyddhau i'r gwyllt unrhyw anifail nad yw fel rheol yn preswylio ym Mhrydain Fawr ac nad yw'n ymwelydd cyson â Phrydain Fawr yn ei gyflwr gwyllt, neu unrhyw anifail sydd wedi'i restru yn Atodlen 9 i'r Ddeddf. Mae hefyd yn anghyfreithlon caniatáu i anifail o'r fath ddianc. Mae'r wiwer lwyd wedi'i chynnwys yn Atodlen 9. Felly, mae'n

[25] Derbridge JJ, Pepper HW, Koprowksi JL (2016). Economic damage by invasive grey squirrels in Europe. (2016). Yn: *The grey squirrel Ecology & Management of an invasive species in Europe*, 393-405. Menter Gwiwerod Ewrop.
[26] Derbridge JJ, Pepper HW, Koprowksi JL (2016). Economic damage by invasive grey squirrels in Europe. (2016). Yn: *The grey squirrel Ecology & Management of an invasive species in Europe*, 393-405. Menter Gwiwerod Ewrop.
[27] http://dev-squirrel.pantheonsite.io
[28] https://basc.org.uk/conservation/green-shoots/


anghyfreithlon rhyddhau gwiwer lwyd, neu ganiatáu iddi ddianc, hyd yn oed os cafodd ei chaethiwo am resymau lles. O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, mae'n drosedd peri i anifail o dan reolaeth person ddioddef yn ddiangen (ac mae hyn yn cynnwys anifeiliaid a gaiff eu dal mewn cewyll). Mae'r Ddeddf Lles Anifeiliaid hefyd yn rhoi dyletswydd ar unigolyn i sicrhau bod anghenion lles yr holl anifeiliaid sydd o dan ei reolaeth yn cael eu bodloni. Yn fwy diweddar, mae Erthygl 7 o'r Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yn darparu na chaniateir rhyddhau rhywogaethau estron goresgynnol sy'n peri pryder i'r Undeb yn fwriadol i'r amgylchedd.

### Targedu adnoddau

Gan fod y wiwer lwyd yn gyffredin dros ran helaeth o Gymru, rhaid cydweithio dros gyfnod hir er mwyn i'r gwaith o'i rheoli fod yn effeithiol[29]. Mae'r gwaith o reoli'r wiwer lwyd er mwyn diogelu'r wiwer goch yn effeithiol pan fydd rhaglen drapio strategol yn cael ei rhoi ar waith yn barhaus yn y prif ardaloedd craidd a'r ardaloedd clustogi o'u hamgylch. Pe bai'r rhaglen hon yn dod i ben, byddai'r wiwer lwyd yn ailgytrefu'r ardaloedd hyn.[30]

Mae hyn hefyd yn wir pan fo gwaith rheoli'n cael ei wneud am resymau eraill – boed i ddiogelu cnwd pren ifanc neu i ysgafnhau'r pwysau ar gynefinoedd coetir. Pan fydd tirfeddiannwr yn penderfynu rheoli gwiwerod, mae'n gwneud ymrwymiad parhaus i ddarparu adnoddau a chyllid dros y cyfnod o 30 mlynedd neu ragor pan fydd cnwd pren yn agored i niwed. Rhaid i hyd a lled y gwaith rheoli fod yn gymesur â'r amcanion ar gyfer y coetir.

Ar adeg pan fo adnoddau'n lleihau, dylid targedu'r categorïau a ganlyn i reoli'r wiwer lwyd. Nid yw'r rhain mewn trefn blaenoriaeth gan mai'r tirfeddiannwr fydd yn penderfynu rheoli'r wiwer lwyd yn y pen draw.




[29] Mayle et al (2007)
[30] Shuttleworth et al (2016) Identifying incursion pathways, early detection responses and management actions to prevent grey squirrel range expansion; an island case study in Wales. The Grey squirrel: ecology and management of an invasive species in Europe

Oherwydd natur ac argaeledd cyllid cyhoeddus, mae'n debygol mai diogelu poblogaethau'r wiwer goch fydd prif ffocws y gwaith. Fodd bynnag, gallai tirfeddianwyr gydweithio i gyflawni eu hamcanion nhw pe baent yn cael digon o gymorth drwy gael mynediad at hyfforddiant, cynlluniau benthyg trapiau ac arferion gorau. Yn unol â Chynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru, argymhellir cydweithio ar raddfa tirwedd i sicrhau bod y gwaith mor effeithiol â phosibl. Byddai penodi swyddog prosiect i helpu i gydgysylltu'r gwaith hefyd yn cyfrannu at lwyddiant y gwaith.

Byddai modd llunio map lefel uchel o'r ardaloedd coediog yng Nghymru sy'n agored i niwed ar sail data ynghylch eu hoedran a pha mor agos y maent at goetiroedd aeddfed. Byddai'r map hwn yn gallu rhoi sgôr risg uchel / ganolig / isel i goetiroedd Cymru, gan awgrymu clystyrau o ardaloedd coediog sy'n agored i niwed lle byddai modd targedu gwaith cydweithredol. Gallai'r map hefyd ddarparu tystiolaeth gefndir i grwpiau a fydd yn gwneud cais am arian pan fydd / os bydd arian o'r fath ar gael.

Os bydd tirfeddianwyr yn mynd ati i reoli'r wiwer lwyd ar eu pennau eu hunain, efallai na fyddant yn llwyddo i'r un graddau â'r rheini sy'n cydweithio ar raddfa tirwedd, ond ni ddylai hyn eu hatal rhag cael mynediad at gymorth grant os bydd ar gael.

Cwestiwn 1

Oherwydd prinder adnoddau, mae angen targedu'r gwaith o reoli poblogaethau'r wiwer lwyd. Nid yw'r categorïau uchod wedi eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth oherwydd y bydd hynny'n dibynnu ar amcanion tirfeddianwyr a grwpiau lleol. Fodd bynnag, o dynnu sylw at y categorïau i'w targedu, mae'n helpu i danlinellu eu pwysigrwydd, ac fe allai osod sylfaen ar gyfer targedu pellach yn y dyfodol. Ydych chi'n cytuno â'r categorïau hyn? Rhowch reswm dros eich ateb.

Cwestiwn 2

Byddai modd llunio map o'r ardaloedd coediog yng Nghymru sy'n dangos pa mor agored i niwed y mae pob ardal i helpu i ddangos lle y gellir targedu gwaith cydweithredol i reoli'r wiwer lwyd.
Ydych chi'n credu y byddai'r offeryn hwn yn hwyluso'r gwaith o reoli'r wiwer lwyd drwy ddull cydweithredol wedi'i dargedu? Rhowch fanylion unrhyw ddulliau eraill wedi'u targedu.

**Yr hyn sy'n cyfyngu ar y gwaith o reoli'r wiwer lwyd**

*Barn y cyhoedd* – Mae'r wiwer lwyd wedi ennill ei phlwyf ym meddyliau'r cyhoedd fel rhan o'n bywyd gwyllt. Mae'r cyhoedd yn hoff o'r wiwer lwyd; mae'n anifail hoffus ac mae'n aml yn cael ei fwydo mewn gerddi a pharciau. Gall y cyhoedd ymateb yn negyddol iawn i'r gwaith o reoli'r wiwer lwyd, ac mae hyn wedi rhwystro rhai cyrff ac elusennau rhag mynd ati i reoli ei niferoedd.

*Poblogaeth* – Mae'r wiwer lwyd yn bridio'n aml. Mae'n cael dau dorraid y flwyddyn, ac mae torraid cyffredin yn cynnwys tair gwiwer fach. Amcangyfrifir bod oddeutu

50% o bob torraid yn goroesi[31]. Mae'r gwiwerod bach yn barod i adael y nyth pan fyddant yn saith wythnos oed. Gall lefelau'r boblogaeth amrywio'n fawr ar sail y bwyd sydd ar gael, yn enwedig dros fisoedd y gaeaf.[32]

*Dosbarthiad a gwasgariad* – Derbynnir bod y wiwer lwyd yn gyffredin ym mhob rhan o dir mawr Cymru[33], ac eithrio prif ardaloedd y wiwer goch lle mae camau rheoli ar waith i leihau ei niferoedd. Y llwybrau gwasgaru a ffefrir ganddi yw coridorau afonydd a choetiroedd, ymylon cynefinoedd a chaeau, lleiniau glas a thraciau.[34] O wybod am y llwybrau hyn, gellir targedu'r gwaith o reoli'r wiwer lwyd. Mae mwy o gynefinoedd a bwyd ar gael yn sgil plannu mwy o rywogaethau llydanddail. Mae'n debygol bod polisïau sy'n annog plannu coed llydanddail mewn coetiroedd conwydd i greu mwy o amrywiaeth wedi annog y wiwer lwyd i ennill tir.[35] Amcangyfrifir bod y wiwer lwyd yn cytrefu ym Mhrydain ar raddfa o 5.7 – 8.2km y flwyddyn.[36]

*Gweithredu ar wahân* – Yn y gorffennol, darparwyd cymorth grant i reoli'r wiwer lwyd i unigolion. Os nad yw eu cymdogion yn rheoli gwiwerod mewn coedwigoedd cyfagos, gall danseilio eu hymdrechion nhw i reoli'r wiwer lwyd. Mae tystiolaeth yn dangos bod y wiwer lwyd yn ailgytrefu ardal a gliriwyd o fewn 6-8 wythnos os nad yw'r poblogaethau cyfagos yn cael eu rheoli.[37] Felly, os nad yw perchnogion coetiroedd yn cydweithio â'i gilydd, gall fod yn rhwystr rhag rheoli'r wiwer lwyd. Bu hyn hefyd yn rhwystr rhag plannu coetiroedd llydanddail i gynhyrchu pren o safon.[38]

*Costau rheoli* – Llafur i osod, gwirio ac ailosod trapiau yw'r brif gost o reoli'r wiwer lwyd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn sgil tynnu warffarin oddi ar y farchnad. Mae'r angen i ymgymryd â gwaith rheoli dros gyfnod hir, ynghyd â'r ansicrwydd ynghylch gwerth y pren a gynhyrchir yn y pen draw, yn rhwystro perchnogion rhag ymgymryd â'r gwaith.

*Ffynonellau bwyd amgen* – Os yw coetiroedd wedi'u lleoli wrth ymyl ardaloedd preswyl, mae preswylwyr lleol sy'n darparu bwyd amgen i'r wiwer lwyd yn eu gerddi yn tanseilio'r ymdrechion i'w trapio. Mae bwydo ffesantod i'w saethu yn gallu darparu ffynhonnell fwyd amgen, ond mae gwaith i reoli'r wiwer lwyd fel rheol yn digwydd ochr yn ochr â hyn.

*Costau dileu'r wiwer lwyd* – Roedd adroddiad gan CABI yn trafod y posibilrwydd o ddileu'r wiwer lwyd o'r DU, gan amcangyfrif y byddai'n costio £850 miliwn dros gyfnod o wyth mlynedd i'w dileu yn hwyr yn y cyfnod goresgyn. Dywedir bod hwn yn amcangyfrif ceidwadol. Byddai'n costio £76 miliwn i Gymru dros yr un cyfnod. O

---

[31] Hayssen, V – Reproduction in grey squirrels: from anatomy to conservation. The Grey Squirrel – Ecology and Management of an Invasive Species in Europe (2016)
[32] Gurnell, J. (1996) The effects of food availability and winter weather on the dynamics of a grey squirrel population in southern England. Journal of Applied Ecology 33: 325-338.
[33] Dutton, C (2016) – The Grey Squirrel Management Handbook, Menter Gwiwerod Ewrop.
[34] Stevenson et al (2013) - Modelling ecological networks and dispersal in grey squirrel.
[35] Mayle a Broome (2013) Changes in the impact and control of an invasive alien: the grey squirrel in Great Britain, as determined from regional surveys. *Pest Management Science* 69: 414-424.
[36] Signorile et al (2014) Do founder size, genetic diversity and structure influence rates of expansion of North American grey squirrels in Europe? Diversity & Distribution DOI: 10.1111/ddi.12222
[37] Mayle a Broome (2013) Changes in the impact and control of an invasive alien: the grey squirrel in Great Britain, as determined from regional surveys. *Pest Management Science* 69: 414-424.
[38] Confor – sylwadau aelodau

ystyried yr anawsterau ymarferol sy'n gysylltiedig â dileu'r wiwer lwyd, yr ymdrechion yn yr Eidal i'w dileu'n gynnar yn y cyfnod goresgyn, a methiant yr ymdrechion blaenorol i'w dileu o dir mawr y DU, mae'r adroddiad yn cydnabod efallai na fydd yn bosibl dileu'r wiwer lwyd o Brydain mwyach. Er gwaethaf llwyddiant y rhaglen i ddileu'r wiwer lwyd o Ynys Môn, mae ei gallu i wasgaru, maint y boblogaeth sefydledig, y ffin ddaearyddol estynedig â Lloegr, a'r costau posibl yn golygu **nad oes modd dileu'r wiwer lwyd o Gymru yn gyfan gwbl ar hyn o bryd**.

*Y wiwer goch* – Nod y gwaith o reoli ac atal poblogaethau'r wiwer lwyd rhag ymsefydlu o'r newydd ar brif safleoedd y wiwer goch yw atal cystadleuaeth am fwyd ac atal brech y wiwer rhag ymledu. Er bod brechlyn brech y wiwer yn cael ei ddatblygu, mae poblogaethau o'r fath yn debygol o barhau i fod yn agored i niwed, a bydd angen parhau i reoli'r wiwer lwyd o amgylch yr ardaloedd hyn.

**Opsiynau rheoli ac arferion gorau**

O godi ymwybyddiaeth o effaith y wiwer lwyd, dylai helpu i gymell pobl i weithredu, ond dylai hefyd helpu'r cyhoedd i ddeall pam fod angen gweithredu. Mae hefyd yn bwysig bod tirfeddianwyr yn asesu lefelau'r difrod er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch rheoli'r wiwer lwyd, a'u bod yn defnyddio arferion gorau i sicrhau bod y camau a gymerir ganddynt yn effeithiol ac yn ddi-boen.

Bydd hyd a lled y gwaith o reoli'r wiwer lwyd yn dibynnu ar yr amcanion ar gyfer ardal benodol. I ddefnyddio'r dull a argymhellir[39] i leihau'r difrod i goetiroedd gan y wiwer lwyd, mae angen asesu lefel debygol y difrod[40] cyn mynd ati i leihau lefelau'r boblogaeth islaw'r lefel niweidiol drwy gymryd camau rheoli wedi'u targedu. Mae'n debygol y bydd angen rheoli'n barhaus neu'n fynych dros gyfnod o sawl blwyddyn tra mae'r coed yn agored i niwed. Mae'r arferion gorau o ran asesu difrod gan wiwerod ar gael drwy Forest Research - https://www.forestry.gov.uk/PDF/fcpn1.pdf/$FILE/fcpn1.pdf

Efallai na fydd angen rheoli'r wiwer lwyd ar y raddfa hon, neu efallai na fydd modd cyfiawnhau'r gost o wneud hynny, mewn coetiroedd a reolir at ddibenion bioamrywiaeth neu amwynder. Serch hynny, er mwyn gwarchod cynefinoedd y wiwer goch, mae'n debygol y bydd angen dileu'r wiwer lwyd yn llwyr, cyhyd ag y bo modd, ar sail hirdymor. Felly, bydd gwahanol amcanion yn dylanwadu ar yr opsiynau rheoli a ddewisir, a'u hyd a'u lled. Ymhlith y ffactorau eraill a all ddylanwadu ar yr opsiynau a ddewisir mae'r adnoddau, y sgiliau a'r wybodaeth sydd ar gael, y costau, a'r amserlen ar gyfer cyflawni'r amcan.

Mae cyngor, hyfforddiant ac arferion gorau o ran sut i reoli'r wiwer lwyd ar gael o nifer o ffynonellau. Fe'u rhestrir yn Atodiad 2.

Dulliau rheoli amgen

*Beleod* – Mae hwn yn gigysydd coetir brodorol a chanddo ddeiet amrywiol a all gynnwys gwiwerod. Er bod beleod yn brin yng Nghymru, fel rhan o brosiect Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent, cafodd nifer fach o feleod eu rhyddhau yn y

[39] Mayle et al (2007) Controlling Grey squirrel damage to woodlands. Nodyn ymarfer y CC.
[40] Pepper (1998) Nearest Neighbour Method for Quantifying Wildlife Damage to Trees in Woodland. Nodyn ymarfer y CC.

Canolbarth o dan drwydded yn 2015 a 2016 i ategu'r poblogaethau a oedd yn weddill[41]. Mae tystiolaeth o Iwerddon yn awgrymu bod cysylltiad mewn rhai ardaloedd rhwng adferiad poblogaethau'r wiwer goch a dychweliad beleod a dirywiad poblogaethau'r wiwer lwyd yn sgil hynny[42]. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'n amlwg sut y mae hyn yn gweithio, felly ni ellir dibynnu ar feleod fel ffordd effeithiol o reoli'r wiwer lwyd.

*Cynllun coedwig* – Mae'r wiwer lwyd yn gallu manteisio ar rai cynefinoedd coetir a chymysgedd o rywogaethau yn well nag eraill. Wrth reoli coetiroedd sy'n bodoli eisoes neu blannu ardaloedd newydd, dylid ystyried osgoi rhywogaethau coed penodol sy'n ddeniadol i'r wiwer lwyd. Rhaid ystyried hyn ochr yn ochr â'r amcanion ar gyfer y coetir h.y. cynhyrchu pren neu fioamrywiaeth. Gall cynllun coedwig gyfrannu at y gwaith o reoli'r wiwer lwyd ar raddfa coedwig unigol, ond hefyd ar raddfa tirwedd o bosibl.

*Atal cenhedlu drwy'r system imiwnedd* – Mae'r dull newydd hwn o reoli poblogaethau'n dal i fod yn destun ymchwil. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar ddarparu brechlyn atal cenhedlu effeithiol sy'n bodoli eisoes i wiwerod llwyd drwy'r geg i leihau maint y boblogaeth mewn ardal benodol. Brechlyn (protein) ac nid hormon atgenhedlu yw'r abwyd atal cenhedlu. O'r herwydd, bydd y brechlyn yn cael ei dorri i lawr ym meinwe a stumog yr anifail lletyol, felly mae'n debygol y byddai unrhyw gynnyrch gweithredol (os o gwbl) a fyddai'n trosglwyddo i ysglyfaethwyr neu i bobl drwy gig gwiwer yn fach iawn, ac ni fyddai'n debygol o gael unrhyw effaith fiolegol. Mae angen gwneud mwy o waith i gadarnhau effeithiolrwydd y dull hwn a'r ganran darged sy'n bwyta'r abwyd, yn ogystal â chynnal treialon caeth a threialon maes. Gallai hwn fod yn ddull rheoli costeffeithiol i'w ddefnyddio ochr yn ochr â'r dulliau presennol o reoli'r wiwer lwyd. Bydd data manwl am beryglon eilaidd yn cael eu casglu pan ystyrir cofrestru'r brechlyn hwn.

Dulliau rheoli angheuol

O ran dulliau rheoli angheuol, y gofyniad cyffredinol yw eu bod yn lladd heb greulondeb. Dim ond os yw'r tirfeddiannwr neu'r meddiannwr wedi rhoi caniatâd y gellir defnyddio dulliau angheuol.[43] Argymhellir y dylai'r rheini sy'n defnyddio dulliau rheoli angheuol gael hyfforddiant priodol i ddefnyddio trapiau a lladd heb greulondeb.

*Gwenwyno gan ddefnyddio warffarin* – **Ni chaniateir** defnyddio warffarin (abwyd gwiwerod llwyd) i reoli'r wiwer lwyd mewn ardaloedd fel coetiroedd mwyach (30 Medi 2015 oedd y dyddiad olaf y caniatawyd ei ddefnyddio). Mae'r defnydd ohono fel bioladdwr dan do hefyd yn cael ei wahardd. Ni chaniateir ei farchnata ar ôl 31 Gorffennaf 2017 na'i ddefnyddio ar ôl 27 Ionawr 2018.

*Trapio byw* – I wneud hyn, caiff anifeiliaid byw eu dal mewn trap, ac yna cânt eu lladd ag un ergyd ar gefn y pen pan gaiff y trap ei archwilio. Dylid gwneud hyn o leiaf unwaith y dydd. **Rhaid** defnyddio'r dull hwn mewn mannau lle gallai gwiwerod coch

---

[41] http://www.pine-marten-recovery-project.org.uk/

[42] Sheehy, E. a Lawton, C. (2014). Population crash in an invasive species following the recovery of a native predator: the case of the American grey squirrel and the European pine marten in Ireland. *Biodiversity and conservation*, 23**,** 753-774

[43] Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. 27 (1) Dehongli rhan 1

gael eu dal er mwyn eu rhyddhau. Rhaid lladd unrhyw wiwerod llwyd sy'n cael eu dal yn y trapiau oherwydd ei bod yn anghyfreithlon eu rhyddhau ar ôl eu dal.

*Trapiau sbring* – Mae'r trapiau hyn yn lladd yr anifail pan fydd yn symud drwy'r trap a'i sbarduno. Cafodd y trapiau y caniateir eu defnyddio eu cymeradwyo drwy Orchymyn Cymeradwyo Trapiau Sbring (Cymru) 2012[44] oherwydd eu bod yn effeithiol ac yn lladd heb greulondeb. Rhaid rhoi mesurau ar waith i atal rhywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu rhag mynd i'r trapiau. Argymhellir y dylid archwilio trapiau sbring o leiaf unwaith y dydd.

*Saethu* – Gellir saethu gwiwerod llwyd yn gyfreithlon a heb greulondeb. Ni thybiwyd bod saethu gwiwerod llwyd ar hap yn ffordd effeithiol o reoli'r wiwer lwyd yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae cynlluniau peilot sy'n defnyddio gorsafoedd abwyd ac ymdrechion cydgysylltiedig i'w saethu yn cael eu profi i sicrhau bod y dull mor effeithlon â phosibl.

Mae trapiau a dulliau newydd o reoli'r wiwer lwyd yn cael eu datblygu o hyd. Mae'n bwysig bod perchnogion yn defnyddio dulliau rheoli sy'n gyfreithlon, yn drugarog, ac yn dal y rhywogaeth darged yn unig. Os oes perygl y gallai gwiwerod coch gael eu dal, dylid gofyn am gyngor gan grwpiau gwiwerod coch lleol.

**Ymchwil**

Mae llawer o waith ymchwil yn dal i gael ei wneud i ecoleg ac ymddygiad y wiwer lwyd, a'r ffordd y gellir defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu dulliau mwy effeithiol o'i rheoli.

Defra sy'n rheoli cyllidebau a rhaglenni ymchwil Cymru a Lloegr, ac eithrio ychydig o waith gwyliadwriaeth iechyd a lles anifeiliaid sydd wedi'i ddatganoli. Mae Llywodraeth Cymru, fel rhan o grŵp ymchwil ehangach Defra, sy'n cynnwys y Comisiwn Coedwigaeth, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ac eraill, yn ymgymryd â gwaith ymchwil i'r wiwer lwyd, gan gynnwys:

- Ymchwilio i effaith y wiwer lwyd ar goetiroedd a'r rhesymau y mae'n rhisglo coed;
- Pennu strategaethau rheoli effeithlon, gan gynnwys dulliau trapio newydd, atal cenhedlu drwy'r system imiwnedd, ac ysglyfaethu naturiol;
- Ymchwilio i'r heintiau y mae'r wiwer lwyd yn eu cario a'u risg i fywyd gwyllt brodorol ac anifeiliaid dof.

Mae Forest Research yn rhoi cyngor ar reoli'r wiwer lwyd a materion gwarchod coed, ac yn rhestru'r ymchwil a gyhoeddwyd.
http://www.forestry.gov.uk/fr/greysquirrels

[44] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/2941/introduction/made/welsh

## 5. Tabl o'r camau gweithredu a'r cyrff arweiniol

I reoli'r wiwer lwyd, mae angen i bob rhanddeiliad weithio mewn partneriaeth. Gall Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru gyfrannu drwy godi ymwybyddiaeth o arferion gorau, ymchwil a hyfforddiant, cefnogi cydweithredu a phartneriaeth, ac ymgymryd â gwaith priodol ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae llwyddiant y gwaith yn dibynnu ar i dirfeddianwyr a rheolwyr ysgwyddo cyfrifoldeb dros reoli'r wiwer lwyd ar eu tir nhw a chydweithio â thirfeddianwyr eraill a grwpiau mewn ffordd gydgysylltiedig ar raddfa tirwedd.

Mae Safon Coedwigaeth y DU yn nodi'r egwyddorion a'r arferion gorau o ran rheoli coedwigoedd cynaliadwy. Mae'n datgan y dylai perchnogion coetiroedd fonitro difrod i goedwigoedd ac ymyrryd i warchod coed sy'n agored i niwed gan famaliaid sy'n pori, gan gynnwys llygod pengrwn, ceirw, cwningod, ysgyfarnogod, gwiwerod llwyd a da byw. I'r perwyl hwn, dylai pob perchennog coetir fonitro difrod ac ystyried a oes angen rheoli'r wiwer lwyd.

Dros y blynyddoedd, mae sawl cyfle wedi codi yng Nghymru i gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch rheoli'r wiwer lwyd, ac mae cyfleoedd hefyd wedi codi yn Lloegr yn fwy diweddar. Mae'r camau gweithredu a restrir isod yn seiliedig ar y prif bwyntiau a wnaed gan y rhanddeiliaid hyn, yn ogystal â mewnbwn gweithgor rhanddeiliaid Cymru.

Mae'r camau gweithredu drafft a ganlyn yn nodi'r hyn a wneir i gefnogi dull mwy strategol a chydweithredol o reoli'r wiwer lwyd yng Nghymru.

Rhestrir y camau gweithredu drafft isod mewn tabl sy'n dangos:-

- Y camau gweithredu a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion
- Y cyrff arweiniol a chanddynt rôl ariannu a/neu rôl gydgysylltu a fydd yn ymwneud â chyflawni'r cam gweithredu ac a fydd, felly, yn mynd ati i hybu'r gwaith o gyflawni'r camau gweithredu. Bydd angen i'r cyrff arweiniol a grwpiau neu sefydliadau eraill gydweithio i gyflawni'r camau gweithredu.

| **Cam gweithredu** | **Corff arweiniol** |
|---|---|
| *Rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy* | |
| 1) Tynnu sylw at effaith y wiwer lwyd ar fioamrywiaeth ac adnoddau coetiroedd mewn datblygiadau polisi priodol yn y dyfodol.<br><br>2) Ymchwilio i'r posibilrwydd o lunio dadansoddiad o ba mor agored i niwed yw adnodd coetiroedd Cymru i roi ffocws ar gyfer dull cydgysylltiedig o reoli'r wiwer lwyd gan bartneriaethau lleol a thirfeddianwyr. | Pob partner<br><br>LlC/CNC |

| | |
|---|---|
| 3) Hybu camau i sefydlu ac i gefnogi partneriaethau cydweithredol i reoli'r wiwer lwyd ar raddfa tirwedd.<br><br>4) Pwyso a mesur dichonoldeb darparu cymhellion ar gyfer dull strategol a chydweithredol o reoli'r wiwer lwyd wrth lunio cynlluniau rheoli adnoddau naturiol yn y dyfodol.<br><br>5) Lle bo'n ymarferol ac yn fuddiol gwneud hynny, mynd ati i reoli'r wiwer lwyd ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru fel rhan o ddull partneriaeth cydgysylltiedig ar raddfa tirwedd.<br><br>6) Parhau i gynorthwyo i reoli'r wiwer lwyd er mwyn diogelu'r wiwer goch ar dir preifat drwy roi cyngor a rhoi benthyg offer.<br><br>7) Parhau i reoli'r wiwer lwyd er mwyn diogelu'r wiwer goch ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn unol â Chynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru drwy ddull partneriaeth.<br><br>8) Cydweithio i wella'r gwaith o gyflawni camau gweithredu Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru a Chynllun Gweithredu Drafft Cymru i Reoli'r Wiwer Lwyd. | LlC/CNC<br><br>LLC/CNC<br><br>CNC<br><br>CNC<br><br>CNC<br><br>Fforwm Gwiwerod Cymru |
| *Canllawiau* | |
| 9) Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a rheolwyr tir o effaith y wiwer lwyd ar goetiroedd, cynhyrchu pren a bioamrywiaeth ehangach.<br><br>10) Hyrwyddo arferion gorau, tynnu sylw at yr angen i asesu'r risg o ddifrod a rhoi cynllun rheoli ar waith, hybu camau i ddiweddaru gwybodaeth, a sicrhau bod yr hyfforddiant ar reoli'r wiwer lwyd a ddarperir gan amryw o bartneriaid yn parhau. | Fforwm Gwiwerod Cymru<br><br>Fforwm Gwiwerod Cymru |
| *Ymchwil a monitro* | |
| 11) Parhau i gefnogi ymchwil i ffyrdd o wella'r dulliau rheoli, gan gynnwys cyllideb ymchwil a datblygu bywyd gwyllt a bioamrywiaeth Defra ar gyfer Cymru a Lloegr.<br><br>12) Cadw llygad ar ymchwil i ddulliau o reoli'r wiwer lwyd yn y DU a phennu bylchau yn yr ymchwil honno a fyddai'n gosod sylfaen well ar gyfer y gwaith o reoli'r wiwer lwyd. Tynnu sylw'r rheini sy'n comisiynu ymchwil atynt.<br><br>13) Mynd ati i ddatblygu ymhellach ddulliau o fonitro effaith y mesurau i reoli'r wiwer lwyd pan fo cyllid yn caniatáu i hynny ddigwydd, gan leihau'r effaith ar fioamrywiaeth, rhywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu, gwasanaethau | LlC<br><br>Fforwm Gwiwerod Cymru<br><br>LlC/CNC |

| | |
|---|---|
| ecosystemau cysylltiedig a'r economi. | |

<u>Cwestiwn 3</u>

Mae camau gweithredu drafft 3) a 4) yn ymwneud â darparu cymorth a chymhellion mewn cynlluniau grant yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar waith cydweithredol. Ydych chi'n cytuno y dylai'r cymorth, os bydd ar gael, ganolbwyntio ar ddull strategol a chydweithredol o reoli poblogaethau'r wiwer lwyd? Eglurwch eich ateb.

<u>Cwestiwn 4</u>

Oherwydd prinder adnoddau, nid yw'n bosibl nac yn ymarferol rheoli'r wiwer lwyd ar bob rhan o Ystad Goed Llywodraeth Cymru. Mae cam gweithredu 5) yn ymwneud â'r gwaith y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru ymgymryd ag ef pan fydd adnoddau'n caniatáu iddo wneud hynny. Ydych chi'n cytuno y dylai ymgymryd â'r gwaith hwn yn yr ardaloedd lle mae'n ymarferol iddo wneud hynny a lle y gall gydweithio â pherchnogion coetiroedd eraill? Isod, rhowch fanylion unrhyw ystyriaethau neu gyfyngiadau eraill o ran pennu ardaloedd i weithredu ynddynt

<u>Cwestiwn 5</u>

Mae cam gweithredu drafft 8) yn ymwneud â chydweithio i wella'r gwaith sy'n digwydd ar lawr gwlad. Ydych chi'n cytuno? Sut y gellir cyflawni hyn?

<u>Cwestiwn 6</u>

Mae cam gweithredu drafft 10) yn ymwneud â hybu arferion gorau a hyfforddiant, a thynnu sylw at yr angen i asesu'r risg o ddifrod. Ydych chi'n cytuno bod y gweithredoedd hyn yn angenrheidiol i hybu'r gwaith o reoli'r wiwer lwyd? Sut y gellir gwneud hyn yn effeithiol?

## 6. Llywodraethu a monitro

I roi'r cynllun gweithredu drafft hwn ar waith, rhaid i'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol weithio mewn partneriaeth. Cynnull grŵp llywio fyddai'r ffordd orau o hwyluso hyn. Cynigir y gallai Fforwm Gwiwerod Cymru, sydd eisoes yn rhoi cyngor ar y camau i roi Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru ar waith, weithredu fel grŵp llywio i gydgysylltu ac i gefnogi'r broses o roi'r cynllun gweithredu terfynol i reoli'r wiwer lwyd ar waith, ac i roi cyngor ar y broses honno.

Manteision llywodraethu drwy Fforwm Gwiwerod Cymru:-

- Partneriaeth o randdeiliaid y mae eu cylch gwaith eisoes yn cynnwys rheoli'r wiwer goch a'r wiwer lwyd yw Fforwm Gwiwerod Cymru, er ei fod yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar Gynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru.

- Mae gan lawer o’r aelodau brofiad uniongyrchol o reoli poblogaethau’r wiwer lwyd er budd y wiwer goch ac o roi cyngor ar arferion gorau.
- Byddai modd ehangu’r aelodaeth bresennol drwy wahodd y rheini a chanddynt fuddiannau penodol o ran y wiwer lwyd i fod yn aelodau.
- Byddai hyn yn cydnabod y nod cyffredin o reoli poblogaethau’r wiwer lwyd, yn creu cyfleoedd i rannu arferion gorau, ac yn sicrhau bod cysylltiad agos rhwng y cynlluniau gweithredu ar gyfer y ddwy rywogaeth.

O sefydlu grŵp llywio penodol ar wahân ar gyfer y cynllun gweithredu i reoli’r wiwer lwyd, tybir y byddai’n dyblygu meysydd gwaith cyffredin a’r galw am adnoddau (cyhoeddus, preifat a thrydydd parti).

<u>Cwestiwn 7</u>

Cynigir y byddai modd addasu Fforwm Gwiwerod Cymru yn grŵp llywio er mwyn rhoi’r cynllun ar waith ac osgoi dyblygu gwaith. Ydych chi’n cytuno mai addasu Fforwm Gwiwerod Cymru yn grŵp llywio yw’r ffordd fwyaf priodol o gynorthwyo i roi’r cynllun hwn ar waith? Rhowch resymau dros eich ateb.

Ceir cydnabyddiaeth eang fod poblogaethau’r wiwer lwyd a’r difrod a wneir ganddynt yn cynyddu, ond nid oes data sylfaenol ar gael i fonitro hyn ac mae’r gost o gasglu data o’r fath yn debygol o fod yn ormodol. Bydd y cynllun gweithredu hwn yn cael ei fonitro drwy’r dulliau a ganlyn:-

- Adroddiad ar y cynnydd a wnaed o ran y camau gweithredu – bob blwyddyn drwy ddigwyddiad i randdeiliaid ehangach

- Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol – ymchwilio i’r ffordd orau o ddefnyddio’r data sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch Cymru

- Data am boblogaeth y wiwer goch – fe’u cesglir i adrodd ar Gynllun Diogelu’r Wiwer Goch yng Nghymru

<u>Cwestiwn 8</u>

Oherwydd nad oes data monitro sylfaenol cywir ar gael ar gyfer poblogaethau’r wiwer lwyd a’r difrod a wneir ganddynt, mae’r cynllun yn cynnig tri dull monitro. Rydym yn awyddus i gael gwybod am ddulliau monitro eraill sydd eisoes yn cael eu defnyddio neu a allai gael eu defnyddio, ond na chyfeirir atynt yn y ddogfen ymgynghori. Beth yw’r dulliau hyn a sut y maent yn gweithio?

<u>Cwestiwn 9</u>

Hoffem gael gwybod eich barn ar yr effaith y byddai’r cynllun gweithredu drafft i reoli’r wiwer lwyd yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar y cyfleoedd i bobl

ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Eglurwch hefyd sut yr ydych yn credu y gellir llunio neu newid y cynllun gweithredu drafft i reoli’r wiwer lwyd er mwyn iddo gael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, ac er mwyn iddo beidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Cwestiwn 10

Mae’r cynllun drafft yn amlinellu cyd-destun cynllun gweithredu i reoli’r wiwer lwyd yng Nghymru, ynghyd â’r camau y mae’n angenrheidiol ac yn realistig eu cymryd, yn ein tyb ni, er mwyn gweithredu ar lawr gwlad.

Yn eich tyb chi, a oes unrhyw gamau gweithredu diangen neu unrhyw gamau gweithredu wedi’u hepgor?
A hoffech wneud unrhyw sylwadau eraill?

**Atodiad 1**

# Strategaethau a pholisïau perthnasol eraill Llywodraeth Cymru

Yn ogystal â'r rhwymedigaethau a'r fframweithiau sydd wedi arwain at lunio'r cynllun gweithredu drafft hwn – Strategaeth Coetiroedd i Gymru, y Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol, y Cynllun i Ddiogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru a Chytundeb Gwiwerod y DU – bydd y Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd hefyd yn cyfrannu at nifer o ddeddfau, strategaethau a pholisïau ehangach, sef:-

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yw nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

I sicrhau ein bod i gyd yn gweithio i wireddu'r un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant.

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i ymgymryd â datblygu cynaliadwy wrth gyflawni'r nodau hyn. Mae hefyd yn amlinellu pum ffordd o weithio ar gyfer cyrff cyhoeddus i ddangos eu bod wedi rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith.

Mae'r Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd yn bodloni'r egwyddor datblygu cynaliadwy gan fod rhanddeiliaid a phartneriaid wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i lunio, gyda'r nod o gydweithio i leihau effaith y wiwer lwyd ac i wella cydnerthedd coetiroedd a phoblogaeth y wiwer goch yn y tymor hir. Bydd partneriaid yn cydweithio i gyflawni'r camau gweithredu, a byddant yn helpu i gyflawni canlyniadau polisïau a strategaethau eraill.

Bydd y cynllun gweithredu drafft yn cyfrannu'n uniongyrchol at y nod o greu "Cymru gydnerth" ac mae hefyd yn berthnasol i'r nodau o greu "Cymru lewyrchus" a "Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang". Y nod yw sefydlu'r cynllun gweithredu drafft fel dull cydgysylltiedig ac integredig o weithio, gyda gwaith partneriaeth yn ganolog iddo.

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r Polisi Adnoddau Naturiol

Mae Deddf yr Amgylchedd yn cyflwyno dull o reoli adnoddau naturiol sy'n ymwneud â rheoli ein hamgylchedd naturiol mewn ffordd gydgysylltiedig a chynaliadwy sy'n cyflawni canlyniadau gwirioneddol i'r amgylchedd, i bobl, i'r economi ac i'n cymunedau. Y nod yw gwneud y gorau o'r cyfleoedd y mae adnoddau naturiol Cymru'n eu darparu, gan fynd ati ar yr un pryd i ddiogelu ac i gynyddu cydnerthedd y systemau naturiol er mwyn iddynt barhau i ddarparu'r manteision hyn yn y tymor hir. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd bioamrywiaeth sy'n peri iddi fod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, a hybu cydnerthedd ecosystemau, lle bo hynny'n cydweddu â'r camau i arfer eu swyddogaethau'n briodol. Mae hefyd yn cyflwyno naw egwyddor o ran rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.

Mae'r Cynllun Gweithredu drafft i Reoli'r Wiwer Lwyd yn cydweddu ag amcanion Deddf yr Amgylchedd. Mae'n uniongyrchol berthnasol i'r tair prif elfen a gyflwynwyd gan y Ddeddf: yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, y Polisi Adnoddau Naturiol, a'r Datganiadau Ardal. Dylai'r amcanion a'r camau a gynigir i sefydlu dull cydgysylltiedig o reoli'r wiwer lwyd wneud cyfraniad cadarn at roi'r Ddeddf ar waith a chyflawni'r egwyddorion o ran rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy. Bydd y cynllun gweithredu drafft hwn yn helpu i roi'r Polisi Adnoddau Naturiol ar waith drwy reoli'r wiwer lwyd sy'n effeithio ar gydnerthedd adnoddau naturiol fel coetiroedd a chynefinoedd eraill, a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Mae cyflwyno Datganiadau Ardal yn gyfle pwysig i fwrw golwg dros y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud o ran prif ardaloedd y wiwer goch, adeiladu ar y gwaith hwnnw, ac ystyried sut i'w ehangu.

**Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd 2010**

Mae Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd a'r cynllun cyflawni cysylltiedig yn pennu targedau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru 3% bob blwyddyn ac i gyflawni gostyngiad o 40% o leiaf erbyn 2020 o'i gymharu â ffigurau 1990. Mae'n cadarnhau'r meysydd y dylid canolbwyntio arnynt, ynghyd â'r polisïau a'r rhaglenni a fydd yn helpu i gyflawni'r targedau. Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod sut y bydd y camau a gymerir gan bobl, cymunedau a sefydliadau ledled Cymru'n cyfrannu at gyrraedd y targed.

Mae cynllun cyflawni'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd yn nodi y bydd creu coetiroedd newydd i ddal carbon a rheoli'r ddalfa garbon bresennol mewn coetiroedd yn cyfrannu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sector amaethyddiaeth a defnydd tir Cymru. Un o brif amcanion y polisi yw tyfu coed o ansawdd y gellir eu defnyddio mewn cynnyrch hir oes, fel pren adeiladu, a hynny oherwydd eu bod yn storio'r carbon a gaiff ei ddal tra mae'r goeden yn tyfu yn effeithiol. Mae difrod gan y wiwer lwyd yn effeithio'n anuniongyrchol ar newid hinsawdd drwy atal coed rhag tyfu i'w llawn dwf, gan leihau eu gallu i ddal carbon. Yn ogystal, gall difrod effeithio ar yr hyn y defnyddir y pren ar ei gyfer yn y pen draw. Yn aml, fe'i defnyddir fel coed tân, ac mae hyn yn rhyddhau'r carbon yn ôl i'r atmosffer. Gallai'r Cynllun Gweithredu drafft i Reoli'r Wiwer Lwyd leihau'r difrod i goetiroedd drwy ddefnyddio dull cydweithredol wedi'i dargedu i reoli'r wiwer lwyd.

## Cynllun Adfer Natur Cymru 2015

Mae Cynllun Adfer Natur Cymru'n cynnwys Strategaeth Natur, cynllun gweithredu cysylltiedig, a Fframwaith Adfer Natur sy'n amlinellu'r strwythur llywodraethu i gyflawni camau gweithredu yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Adfer Natur yn ceisio gwireddu'r weledigaeth a ganlyn:

*'Gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, oherwydd bod iddi werth cynhenid, a sicrhau budd sy'n para i'r gymdeithas.'*

Mae'r Cynllun Adfer Natur yn diffinio'r amcanion a'r prif gamau y mae angen eu cymryd yng Nghymru i wireddu ein huchelgais ac i gyflawni'r nod "Cymru gydnerth" a'r ymrwymiadau byd-eang ac Ewropeaidd i roi terfyn ar golli bioamrywiaeth. Gall y Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd gyfrannu at amcanion 2, 3 a 4 y Cynllun Adfer Natur fel a ganlyn:-

- *Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well.* Mae'r wiwer goch wedi'i rhestru fel rhywogaeth o'r pwys mwyaf ar hyn o bryd. O dargedu camau i reoli'r wiwer lwyd ym mhrif ardaloedd y wiwer goch ac o'u hamgylch, fel y gwneir o dan Gynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru, bydd yn helpu i ddiogelu'r poblogaethau hyn.
- *Amcan 3: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd*. Os gellir mynd i'r afael â'r wiwer lwyd, bydd modd i dirfeddianwyr gynllunio i gael adenillion economaidd o goetiroedd lled-naturiol yn y dyfodol, a gallai hynny eu hannog i ymgymryd â gwaith mwy hirdymor i reoli coetiroedd.
- *Amcan 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd.* Mae'n amlwg bod brech y wiwer yn rhoi pwysau ar boblogaethau'r wiwer goch a'i bod yn fygythiad uniongyrchol i'w goroesiad. Gall cynefinoedd coetir newid yn raddol wrth i'r wiwer lwyd effeithio ar rywogaethau sy'n agored i niwed, gan effeithio ar eu cyfansoddiad a'u cydnerthedd yn y tymor hir.

## Rhaglen Natura 2000 LIFE

Mae 92 Ardal Cadwraeth Arbennig ac 20 Ardal Gwarchodaeth Arbennig Cymru'n cynnwys 123 o nodweddion cynefin a rhywogaeth dynodedig. Ar y cyd â'r ardaloedd dynodedig eraill ledled Ewrop, maent yn creu rhwydwaith Natura 2000.

Diben Rhaglen Natura 2000 LIFE yng Nghymru, o dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru, oedd gwneud cynnydd sylweddol tuag at sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd Natura 2000 yng Nghymru mewn cyflwr ffafriol a helpu i gyflawni ei hymrwymiadau o dan Gyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar Ewrop.

Bu i Raglen Natura 2000 LIFE yng Nghymru greu nifer o allbynnau, gan gynnwys 11 Cynllun Gweithredu Thematig. Mae pob un ohonynt yn cynnwys camau gweithredu strategol sy'n flaenoriaeth i fynd i'r afael â'r prif broblemau a risgiau sy'n effeithio'n andwyol ar nodweddion Natura 2000 ledled y rhwydwaith. Mae'r Cynllun Gweithredu Thematig ar Rywogaethau a Phathogenau Goresgynnol yn cydnabod pwysigrwydd mynd ati i reoli'r wiwer lwyd mewn ffordd strategol, ac fe'i nodir mewn tabl o'r camau

strategol i'w cymryd i wella cyflwr safleoedd Natura 2000.

Defnyddiwyd allbynnau Rhaglen Natura 2000 LIFE i lunio pennod Cymru yn Fframwaith Gweithredu Blaenoriaethau diwygiedig y DU a oedd yn sylfaen ar gyfer blaenoriaethau'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Natura 2000.

Mae'r Cynllun Cadwraeth 'Ar ôl LIFE' yn disgrifio sut y bydd sefydliadau perthnasol, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a chyrff y trydydd sector, yn rhoi'r camau a ddisgrifir yn Rhaglen Natura 2000 LIFE ar waith. Mewn rhai achosion, gellir cyflawni'r camau hyn drwy raglenni gwaith sy'n bodoli eisoes. Mewn achosion eraill, fel y Cynllun Gweithredu drafft i Reoli'r Wiwer Lwyd, gall fod angen datblygu meysydd gwaith newydd, er enghraifft, drwy gyflwyno ceisiadau i gynlluniau ariannu allanol neu bwyso a mesur ffyrdd newydd o gydweithio i ddefnyddio adnoddau'n well.

## Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr

Nod cyffredinol Strategaeth Prydain Fawr yw lleihau'r risgiau a achosir gan rywogaethau estron goresgynnol [45] a lleihau eu heffeithiau negyddol. Mae'r strategaeth yn defnyddio dull hierarchaidd y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol gan roi pwyslais ar atal, ac yna ar ganfod yn gynnar ac ymateb yn gyflym, ac yn olaf ar reoli hirdymor. Er bod y Strategaeth yn rhoi'r pwyslais pennaf ar atal ac ymateb yn gyflym, mae hefyd yn cydnabod bod angen mynd ati o hyd i reoli effaith nifer fawr o'r rhywogaethau estron goresgynnol sydd eisoes wedi ennill eu plwyf ym Mhrydain Fawr mewn ffordd gosteffeithiol a strategol.

Gweledigaeth Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr yw mynd ati yn well i warchod bioamrywiaeth, ansawdd bywyd a buddiannau economaidd rhag effeithiau andwyol rhywogaethau estron goresgynnol drwy:

- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth eang o'r risgiau a'r effeithiau andwyol sy'n gysylltiedig â rhywogaethau estron goresgynnol, a bod yn fwy effro iddynt;
- Cynnwys rhywogaethau estron goresgynnol yn yr agenda bioddiogelwch ehangach;
- Ymdeimlad cadarn fod y llywodraeth, sefydliadau sy'n rhanddeiliaid allweddol, rheolwyr tir, a'r cyhoedd yn rhannu'r cyfrifoldeb dros weithredu ac ymddwyn mewn ffordd a fydd yn lleihau bygythiad rhywogaethau estron goresgynnol;
- Fframwaith i lywio mentrau lliniaru, rheoli neu ddileu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i helpu i leihau effaith andwyol rhywogaethau estron goresgynnol;
- Cydweithio'n well ar faterion sy'n ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol ar lefel Ewropeaidd ac ar lefel ryngwladol, a chydgysylltu'r gwaith hwnnw'n well.

---

[45] Mae'r term 'rhywogaeth estron oresgynnol' yn cyfateb i'r term 'rhywogaeth estron' a ddefnyddir gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol ac fe'i diffinnir yn fras fel rhywogaeth y mae ei chyflwyniad a/neu ei lledaeniad yn bygwth amrywiaeth fiolegol neu'n cael effeithiau eraill na chawsant eu rhagweld.

Bwriedir i’r Cynllun Gweithredu drafft i Reoli’r Wiwer Lwyd gyfrannu at y weledigaeth hon.

**Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**

Ar hyn o bryd, mae’r wiwer lwyd ar restr Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru o’r rhywogaethau sy’n flaenoriaeth i’w rheoli yng Nghymru yn y tymor hir. Mae’r rhain yn rhywogaethau sydd wedi ennill eu plwyf yng Nghymru ac y mae’n ymarferol ac yn fuddiol defnyddio dulliau hirdymor i’w rheoli (e.e. diogelu’r prif ardaloedd, cyfyngu, rheoli neu liniaru). Mae’r Cynllun Gweithredu drafft i Reoli’r Wiwer Lwyd yn cyfrannu at y nod hwn.

**Deddf Coedwigaeth 1967**

Mae’r ddeddfwriaeth sy’n ymwneud â choedwigaeth a rheoli coetiroedd wedi’i hymgorffori yn Neddf Coedwigaeth 1967. Mae’n cydnabod yr effaith negyddol y gall y wiwer lwyd ei chael ar goedwigoedd, coed a phren.

**Atodiad 2**

# Rheoli'r wiwer lwyd – cymorth yng Nghymru

Mae llawer o wybodaeth a chyngor ar gael yng Nghymru ynghylch rheoli'r wiwer lwyd, gan gynnwys (yn nhrefn yr wyddor):-

| Enw'r sefydliad | Prif feysydd cymorth | Lleoliad | Manylion cyswllt / gwefan |
|---|---|---|---|
| Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC) | • Cyrsiau hyfforddi ynghylch rheoli'r wiwer lwyd<br>• Cyngor am arferion gorau o ran rheoli'r wiwer lwyd<br>• Gwybodaeth gyffredinol am reoli'r wiwer lwyd<br>• Prosiect BASC i reoli'r wiwer lwyd | Cymru gyfan<br><br>Targedu prif safleoedd y wiwer goch | https://basc.org.uk/basc-wales/<br><br>https://basc.org.uk/game-and-gamekeeping/advice-and-fact-sheets/basc-grey-squirrel-control/#<br><br>https://basc.org.uk/conservation/green-shoots/green-shoots-in-wales/grey-squirrel-control/ |
| Coed Cymru | • Cyngor a chymorth i dirfeddianwyr | Cymru | http://coed.cymru/index.html |
| Cwmnïau rheoli coetir preifat – fe'u rhestrir fel cynllunwyr rheoli coetir Glastir | • Rhoi cyngor ac arweiniad | Cymru gyfan | http://gov.wales/docs/drah/publications/170321-registered-glastir-woodland-planners-contact-details-cy.pdf |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | • Rhoi cyngor ar reoli'r wiwer lwyd<br>• Darparu canllawiau ar faterion deddfwriaethol<br>• Comisiynu ymchwil<br>• Cydweithio â mentrau eraill<br>• Darparu gwasanaeth ysgrifenyddiaeth i Fforwm Gwiwerod Cymru | Cymru gyfan | http://naturalresources.wales/ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyswllt Ffermio | • Hyfforddiant, gan gynnwys rheoli'r wiwer lwyd<br>• Bwletinau newyddion technegol<br>• Digwyddiadau arddangos | Cymru gyfan | https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy<br><br>Canolfan Gwasanaethau 08456 000813 |
| Cytundeb Gwiwerod y DU | • Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd<br>• Ymgysylltu â thirfeddianwyr a grwpiau lleol<br>• Comisiynu ymchwil<br>• Cyfeirio at wybodaeth | Pob rhan o'r DU | http://squirrelaccord.uk/index.html |
| Fforwm Gwiwerod Cymru | • Grŵp o gynrychiolwyr rhanddeiliaid sy'n rhoi cyngor ynghylch y camau i roi Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch yng Nghymru ar waith (gellir ehangu ei gylch gwaith yn y dyfodol i gynnwys y cynllun gweithredu drafft hwn) | Cymru gyfan | Ysgrifenyddiaeth CNC |
| Forest Research | • Arferion gorau o ran rheoli'r wiwer lwyd, asesu difrod i goetiroedd a mwy<br>• Rhestrau o'r ymchwil a gyhoeddwyd ynghylch y wiwer lwyd<br>• Rhoi cyngor ac arweiniad | Pob rhan o'r DU | http://www.forestry.gov.uk/fr/greysquirrels<br><br>https://www.forestry.gov.uk/PDF/fcpn1.pdf/$FILE/fcpn1.pdf |
| Gwiwerod Coch Unedig | • Cefnogi a recriwtio gwirfoddolwyr i reoli'r wiwer lwyd<br>• Cyhoeddi ymchwil ynghylch rheoli'r wiwer lwyd<br>• Rhoi cyngor ac arweiniad | Cymru gyfan | http://dev-squirrel.pantheonsite.io/about/ |
| Llywodraeth Cymru | • Taflen gynghori ar wiwerod llwyd trefol (gellir gwneud cais i gael copi) | Cymru gyfan | Wildlife@cymru.gsi.gov.uk |
| Mwmac Ltd | • Hyfforddiant ynghylch rheoli'r wiwer lwyd | Cymru | chris@mwmac.co.uk |
| Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru | • Cynllun Benthyg Trapiau ar gyfer tirfeddianwyr a phreswylwyr o fewn prif safle'r wiwer goch yn y Canolbarth a'r ardal glustogi o'i amgylch | Prif safle'r wiwer goch yn y Canolbarth a'r ardal | midwalesredsquirrels.org/cy<br><br>07972 201202 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Hyfforddiant ynghylch rheoli'r wiwer lwyd | glustogi | |
| Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru | • Cynlluniau wrth gefn i atal gwiwerod llwyd, eu canfod ac ymateb pan fyddant wedi ennill tir<br>• Cyrsiau hyfforddi ynghylch rheoli'r wiwer lwyd<br>• Ymchwil i heintiau feirws y wiwer lwyd | Ynys Môn / Gwynedd | http://www.redsquirrels.info/cy/<br><br>07966150847 |